

ORIEL YNYS MÔN

POLISI ARDDANGOS

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol i arddangos gwaith artistiaid yn Oriel Ynys Môn. O fewn y polisi hwn, mae 'artistiaid' yn cyfeirio at y canlynol: - arlunwyr, cerflunwyr, crefftwyr, gosodwyr, ffotograffwyr, argraffwyr.

1. Oriel Ynys Môn : Datganiad Cenhadaeth

Mae'r amgueddfa'n bodoli i gadw a hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Ynys Môn drwy annog creadigrwydd yn y dyfodol yn ogystal â dathlu cyflawniadau'r gorffennol. Mae'n edrych i addysgu a rhoi gwybodaeth ac i ddarparu ffocws i bobl yr ynys a hefyd bod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i'w hymwelwyr.

2. Lle Arddangos

O fewn Oriel Ynys Môn, ceir 3 oriel sy'n cael eu rheoli'n broffesiynol: y Brif Oriel Gelf sy'n cynnig 17m x 17m o wagle wal a'r Oriel Hir sy'n cynnig 50m o le ar y wal. Mae Oriel Ynys Môn yn berchen casgliad gelf barhaol sy'n cynnwys gwaith Charles F. Tunnicliffe, y Chwiorydd Massey a Harry Hughes Williams, ynghyd â Chasgliad Ynys Môn eang y mae Oriel Ynys Môn yn cadw'r hawl i'w arddangos fel rhan o'r rhaglen flynyddol. Mae Oriel Ynys Môn hefyd yn berchen ar gasgliad o waith gan Syr Kyffin Williams sydd yn cael ei arddangos yn Oriel Kyffin Williams.

3. Rhaglennu Arddangosfeydd

Bydd Oriol Ynys Môn yn cyflwyno rhaglen gytbwys o arddangosiadau sy'n ymwneud â holl agweddau'r celfi gweledol: darluniau cynrychioliadol a chyfoes a cherflunwaith, print, ffotograffiaeth a chrefftau. Nod y galeri yw arddangos gweithiau o ansawdd gan artistiaid lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Bydd y Brif Oriol Gelf yn arddangos hyd at 7 sioe y flwyddyn, fydd yn cynnwys. Bydd arddangosfeydd fel arfer yn parhau o 6 i 8 wythnos. Mae'r lle hwn yn cael ei archebu hyd at bum mlynedd ymlaen llaw. Bydd yr Oriol Hir yn arddangos 3 sioe y flwyddyn, a fydd fel arfer yn parhau am hyd at 4 mis. Bydd yr Oriol Hir yn cael ei llogi tair blynedd ymlaen llaw, ond gyda rhywfaint o hyblygrwydd.

4. Meini Prawf Arddangos

Bydd gwaith artistiaid sydd â diddordeb mewn arddangos yn Oriol ynys Môn yn cael ei asesu gan banel o weithwyr proffesiynol profiadol a chymwys. Mae Oriol Ynys Môn hefyd yn cadw'r hawl, lle bo angen hynny, i fynd at drydydd parti i gael cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol. Bydd gwaith i'w arddangos yn cael ei asesu yn ôl:-

- Ansawdd, gwaith wedi ei gynhyrchu i safon oriel broffesiynol, ac yn dangos dawn dylunio lefel uchel yn ogystal â defnydd sgilgar a gwybodus iawn o gyfrwng.
- Gwreiddioldeb syniadau a chysyniad; ni fydd gwaith wedi ei gopïo o gylchgronau, llyfrau, cardiau post neu waith artist arall yn cael eu derbyn.
- Perthnasedd i ddatganiad cenhadaeth Oriol Ynys Môn a meysydd o ddiddordeb a amlygwyd ym Mholisi Rheoli'r adain.
- Wrth sefydlu proses ddewis ar gyfer arddangosfeydd sy'n cael eu rheoli gan Gymdeithasau neu Fudiadau Celf o wahanol artistiaid, dim ond gwaith o'r safon oriel uchaf fydd yn cael ei ddewis i'w arddangos. Ansawdd y gwaith ac

nid faint ohono sydd ar gael fydd y prif faen prawf ar gyfer dewis gwaith (gellir hongian hyd at 150 o ddarluniau yn y Brif Oriol).

- Rhaid i grwpiau sy'n arddangos yn rheolaidd yn yr oriel sicrhau bod yr holl waith yn newydd ac nad yw wedi ei arddangos o'r blaen yn yr oriel.

Bydd penderfyniadau ynglŷn â derbyn neu wrthod pethau i'w harddangos, yn seiliedig yn hollol ar y meini prawf a nodir yn y polisi hwn, yn derfynol. Nid oes unrhyw weithdrefn apêl ac ni fyddir yn gohebu ymhellach mewn perthynas â'r penderfyniad.

Dylai artistiaid, grwpiau neu drefnwyr teithiau sydd â diddordeb mewn arddangos yn Oriol Ynys Môn anfon cais ysgrifenedig ynghyd â CV gyfredol, yn ogystal â delweddau o'u gwaith, naill ai ar CD, sleidiau neu ffotograffau (ni ellir eu dychwelyd) i'r: Swyddog Celfyddydau, Oriol Ynys Môn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TQ.

D.S. Bydd y Swyddog Celfyddydau yn cydnabod pob cais. Ni fyddir ond yn gohebu gydag artistiaid y mae eu gwaith wedi ei ddewis i'w arddangos.